# Adolygiad o niwtraliaeth y we

## Cais am dystiolaeth

**CAIS AM DYSTIOLAETH:**

Dyddiad Cyhoeddi: 7 Medi 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 2 Tachwedd 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

‘Niwtraliaeth y we', y cyfeirir ati weithiau fel 'y rhyngrwyd agored', yw'r egwyddor o sicrhau y gall defnyddwyr y rhyngrwyd – nid y darparwr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP) sy'n eu cysylltu â'r rhyngrwyd - reoli'r hyn y maent yn ei weld a'i wneud ar-lein.

Rydym wedi dechrau ar adolygiad o sut mae fframwaith niwtraliaeth y we y DU yn gweithio. Mae'r ddogfen hon yn gais am dystiolaeth ac yn nodi cyd-destun, diben a chwmpas yr adolygiad, a'r dystiolaeth gychwynnol y byddem yn ei chroesawu gan randdeiliaid. Nid yw'n cynnwys unrhyw gynigion polisi.

Mae Ofcom yn gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau niwtraliaeth y we ac mae'n gallu cyhoeddi arweiniad ar gydymffurfio â'r rheolau presennol. Bwriad yr adolygiad hwn yw cyfeirio ein gwaith yn y meysydd hyn. Byddai unrhyw newidiadau i'r rheolau yn fater i Lywodraeth y DU ac yn y pen draw, Senedd y DU.

**Pwyntiau allweddol**

- Yn 2016, daeth rheolau gyda'r nod o ddiogelu egwyddor y 'rhyngrwyd agored' i rym. Fe'u dyluniwyd i ddiogelu hawl defnyddwyr y rhyngrwyd i fod yn rhydd i gael mynediad i wybodaeth a chynnwys a'u dosbarthu, rhedeg apiau a gwasanaethau o'u dewis, a defnyddio'r offer terfynol o'u dewis.
- Ers cyflwyno'r rheolau, bu newidiadau sylweddol yn yr hinsawdd ehangach. Mae technolegau newydd, arloesol ac esblygol yn dod i'r amlwg mewn cyd-destunau preswyl a busnes (e.e. dyfeisiau'r rhyngrwyd pethau). Mae'r rhain wedi'u hategu gan gatalyddion megis datblygu technoleg 5G, a'r symudiad carlam i'r cwmwl.
- Mae galw cynyddol hefyd am gapasiti gan bobl a busnesau. Mae'r rhyngrwyd yn hanfodol er mwyn cadw pobl yn gysylltiedig fel y gallan nhw weithio ac astudio gartref neu wrth fynd allan, cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a meddygol, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, siopa ar-lein a chael eu diddanu. Yn gynyddol, mae hefyd yn darparu seilwaith i gefnogi mentrau sector cyhoeddus a sector preifat yn eu ffordd o weithredu, rhyngweithio â'u staff, eu cwsmeriaid a sefydliadau eraill. Mewn llawer o ffyrdd mae'r pandemig Covid-19 wedi dwysáu a chyflymu'r tueddiadau hyn.
- Mae rhwydweithiau sefydlog a symudol, darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd, a darparwyr cynnwys ac apiau'n ymateb i'r newidiadau hyn ac i ofynion pobl a busnesau drwy gynnig gwasanaethau newydd a blaengar. Mae darparwyr cynnwys ac apiau'n buddsoddi mewn dod â chynnwys a nodweddion newydd i mewn i gartrefi a gweithleoedd, ac mae gweithredwyr rhwydweithiau'n gwneud buddsoddiadau i sicrhau y gallant ddarparu'r seilwaith gwaelodol a fydd yn cefnogi gwasanaethau digidol nawr ac yn y dyfodol.
- O ystyried y cyd-destun deinamig hwn, rydym am edrych yn gyffredinol ar sut mae'r fframwaith niwtraliaeth y we yn gweithio. Byddwn yn ystyried y ffordd orau iddi wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a hyrwyddo mynediad a dewis, ac ar yr un pryd caniatáu i fusnesau arloesi a buddsoddi mewn ffordd a fydd yn cefnogi sector digidol bywiog a deinamig.

- Trwy’r Cais am Dystiolaeth hwn, rydyn ni’n awyddus i ymgysylltu â’r diwydiant a phartïon eraill sydd â diddordeb. Rydym yn croesawu barn darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd, llwyfannau, arbenigwyr, defnyddwyr a sefydliadau eraill sydd â diddordeb ar sut mae'r fframwaith yn gweithredu, datblygiadau perthnasol mewn technoleg a galw, ac unrhyw faterion a heriau a fydd yn cefnogi ein dealltwriaeth o effaith y fframwaith yn ymarferol.

## Y camau nesaf

Croesawn ymatebion erbyn **2 Tachwedd 2021**. Disgwyliwn gyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ein hadolygiad yng Ngwanwyn 2022.